# **Cylchdaith – Mynydd Twr** (SH226833)

Gweler y map isod

## 1. Parc Gwledig – Ynys Lawd Taith gerdded fer (Cyfeiriad gwrth glocwedd)

Ewch allan o'r maes parcio ar hyd llwybr heibio'r llyn. Ymunwch gyda thrac ac yna mynd trwy giat mochyn i gae sy'n mynd tua'r mynydd. Dilynwch lwybr gyda wyneb cerrig i'r Ynys Arw. Gan adael Ynys Arw, ewch ar hyd y trac i fyny'r bryn a dal i'r dde wrth y polyn teligraff. Ewch i fyny darn arbennig o serth a phasio nifer o leoedd wedi eu hamgáu gyda waliau. Yna byddwch yn dechrau mynd i lawr, a chael golygfeydd o Ynys Lawd wrth i chi gerdded. Mae llwybr tua'r chwith i gopa'r mynydd, ond mae'n serth, felly byddwch yn ofalus. Mae'r llwybr yn mynd yn fwy gwastad ac mae'n hawdd cerdded i lawr i'r pentir. Ar ôl cyrraedd Ynys Lawd trowch i'r chwith i lawr y ffordd.

## 2. Parc Gwledig – Ynys Lawd


Ymhen ychydig trowch i'r chwith a dilyn llwybr arall sydd wedi'i ddiffinio'n dda yn gyfochrog â'r un blaenorol. Wrth i chi agosáu at y mynydd cadwch i'r dde, gan fynd o amgylch ei waelod. Dilynwch y waliau ac mewn croesffordd yn y llwybrau, ewch yn syth ar draws. Byddwch yn cyrraedd lôn. Ewch i'r chwith yn ymyl ychydig o dai. Mewn Cyffordd-T trowch i'r chwith a dilyn y lôn i'r pen draw. Mae llwybr yna'n mynd i'r chwith, yna i'r dde, yn dilyn llwybr gyda ffens. Cerddwch i lawr stepiau a byddwch yn canfod eich hun yn ôl yn y Parc Gwledig.

## 3. Ynys Lawd – Porth dafarch

Trowch i'r dde, oddi ar y brif ffordd i lawr i at dwr Elin. Yna dilynwch lwybr yn ôl i'r ffordd. Dilynwch y lôn i lawr i'r gyffordd-T. Ewch drwy'r giat mochyn sydd gyferbyn, a dilynwch y llwybr yn gyfochrog i'r ffordd. Ar ei ddiwedd croeswch y lôn fechan (gyda gofal) ac ewch drwy'r giat mochyn gan ddilyn yr arfordir i ddarn o rostir agored. Dilynwch y prif lwybr o amgylch yr arfordir. Parhewch I ddilyn y marcwyr ffordd i Draeth Porth Dafarch.

## 4. Traeth Porth Dafarch – Parc Gwledig

Trowch i'r dde ar hyd lôn ar ôl y traeth gan gymryd gofal mawr. Trowch i'r chwith ar hyd llwybr ychydig cyn bae Porth Y Post. Dilynwch y marcwyr ffordd dros y cae, i lawr llwybr at lôn. Trowch i'r chwith, yna i'r dde i gae arall, a dilynwch y llwybr dros y allt sydd wedi'i orchuddio ag eithin, i lawr at y tai. Ewch o amgylch ochr dde y tai ac i lawr y ffordd. Trowch i'r chwith, ac ychydig wedyn tua'r dde dros dir fferm yn mynd yn ôl tuag at Fynydd Caergybi. Byddwch yn cwrdd â lôn arall yma. Trowch i'r chwith, yna i'r dde, a pharhewch o amgylch y t^y a thrwy ddarn o dir prysg. Pan ydych yn cyrraedd wal ewch i'r chwith, a dilynwch y llwybr i lawr y allt, ac yna i fyny eto heibio Cae Alltwen. Ewch i'r chwith o amgylch Trewilmot ac i fyny'r rhodfa i'r ffordd. Trowch i'r dde, gan gymryd gofal ar y ffordd, yna trowch i'r chwith i fyny llwybr i ymuno â'r llwybr o amgylch y mynydd. Ewch tua'r dde. Dilynwch y cyfeiriad sydd mewn llythrennau italig yn y rhan Parc Gwledig Ynys Lawd.




Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.